ATODLEN 1 Rheoliad 5(2)

# Ffurflen gais am dystysgrif gymeradwyo

*Nodwch enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol perthnasol a'i logo*

**Cais am dystysgrif gymeradwyo o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

**DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU HYN A'R NODIADAU CYFARWYDDYD ATEGOL YN GYNTAF**

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, a fyddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio priflythrennau ac inc. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen (wedi'u nodi â'r pennawd "Dalen arall - cais am dystysgrif gymeradwyo" a rhowch rif y cwestiwn perthnasol ac enw a chyfeiriad yr ymgeisydd). Efallai y byddwch am gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion.**

**Enw'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflwyno'r dystysgrif** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 1):***

………………………………………………………………………………..

## Rhan 1 – Y math o dystysgrif gymeradwyo y gwneir cais amdani

*Ticiwch fel sy'n briodol*

**1.1 Pa fath o dystysgrif gymeradwyo y mae eich cais yn ymwneud â hi?**

Mangre ☐ Cerbyd ☐

**1.2 Beth yw hyd arfaethedig eich tystysgrif gymeradwyo?**

Dros dro (dim mwy na 7 diwrnod) ☐ 3 blynedd ☐

***Os ydych yn gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro, nodwch pam mae angen cael tystysgrif (er enghraifft, rhowch fanylion am arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad):***

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………...…………………………………

**1.3 Pryd ydych chi am i'r drwydded gymeradwyo ddechrau?**

Cyn gynted â phosibl ☐

Dyddiadau penodol ☐ [*Er enghraifft, nodwch y dyddiau yr ydych am i dystysgrif gymeradwyo eu cynnwys; yn achos tystysgrif gymeradwyo dros dro, rhaid i chi nodi'r dyddiadau o ran pryd y bydd angen y gymeradwyaeth.*]

…….…………………… tan ……………………………..

**Rhan 2 – Manylion yr ymgeisydd** (llenwch fel y bo'n berthnasol)

*Os ydych yn unigolyn, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes neu sefydliad (fel cwmni neu bartneriaeth), llenwch Adran B.*

## Adran A - Ymgeisydd unigol

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs☐ Miss ☐ Ms☐ Dr☐ Arall ☐ (nodwch) ……………………..

**2.2 Cyfenw: ……………………………………………….**

**2.3 Enw(au) cyntaf: ……………………………………………**

**2.4 Rhif ffôn cyswllt:** ………………………………………………

**2.5 Cyfeiriad e-bost (os yw'n berthnasol):** ……………………………………………………………………….

**2.6. Dyddiad Geni:** ………………………………………..

**2.7 Cyfeiriad yr ymgeisydd (preswyl neu fusnes):**

……………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………….. Côd Post: ……………………………………..

**2.8 Nodwch enw llawn yr unigolyn a fydd yn cael ei nodi fel deiliad y dystysgrif ar y dystysgrif gymeradwyo:**

……………………………………………………………………………….

**2.9 Cadarnhewch fod deiliad y dystysgrif arfaethedig yn 18 oed neu'n hŷn** (tic) ☐

**2.10 A yw'r ymgeisydd neu unrhyw unigolyn a enwir yn y cais hwn yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag unrhyw fangre neu gerbyd arall lle mae triniaethau arbennig yn cael eu cynnal?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**Os ateboch "Ydy", rhowch fanylion:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, math a graddau'r cysylltiad hwnnw, cyfeiriad unrhyw fangre, neu fanylion unrhyw gerbyd, rhif(au) tystysgrif gymeradwyo unrhyw fangre neu gerbyd.*]

## Adran B - Cais ar ran busnes neu sefydliad

**2.11 Enw busnes neu sefydliad yr ymgeisydd:**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Defnyddiwch enw masnachu neu enw cofrestredig y busnes neu'r sefydliad.*]

**2.12 Rhif cofrestru'r cwmni:**

……………………………………………………………………………………………………………

**2.13 Math o Gwmni:**

……………………………………………………………………………………………………………

[*Er enghraifft, Cwmni cyfyngedig preifat, Partneriaeth, Unig Fasnachwr.*]

**2.14 Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon ar ran y busnes neu'r sefydliad, nodwch eich enw llawn a'ch rôl yn y busnes *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2)*:**

**Enw Llawn: ……………………………………………………………………….**

**Rôl: ……………………………………………………………………………….**
[*Er enghraifft, Perchennog, Rheolwr, Cyfarwyddwr y Cwmni, Cyfarwyddwr Gweithredol.*]

**2.15 Nodwch gyfeiriad swyddfa gofrestredig y busnes neu'r sefydliad**:

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………..… Côd Post: ………………………………………….

**2.16 Rhowch enw llawn a manylion cyswllt unigolyn arall yn y swyddfa gofrestredig y gellir cysylltu ag ef mewn perthynas â'r cais hwn ac am gyfnod y dystysgrif gymeradwyo arfaethedig *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 3):***

**Enw llawn:** ……………………………………………………………………………………

**Rôl:** ………………………..………………………………………………………………….
[*Er enghraifft, Rheolwr Rhanbarthol, Rheolwr Ardal, Rheolwr Safle ac ati]*

**Manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost):**

…………………………………………………………………………………..………………

**2.17 Nodwch enw'r busnes/sefydliad a fydd yn cael ei restru fel deiliad y dystysgrif ar y dystysgrif gymeradwyo:**

…………………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………………….

**2.18 A yw'r ymgeisydd neu unrhyw unigolyn a enwir yn y cais hwn yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag unrhyw fangre neu gerbyd arall lle mae triniaethau arbennig yn cael eu cynnal?**

Ydy☐ Nac ydy ☐

**Os ateboch "Ydy", rhowch fanylion:**

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, math a graddau'r cysylltiad hwnnw, cyfeiriad unrhyw fangre, neu fanylion unrhyw gerbyd, rhif(au) tystysgrif gymeradwyo unrhyw fangre neu gerbyd.*]

## Rhan 3 - Manylion y Fangre neu'r Cerbyd

Os yw eich cais yn ymwneud â mangre, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn ymwneud â cherbyd, llenwch Adran B.

**Adran A - Manylion y Fangre**

**3.1 Yr enw masnachu a ddefnyddir yn y fangre (os yw'n berthnasol):**

………………………………………………………………………………………………………………

**3.2 Cyfeiriad y fangre:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………...…… Côd Post: ………………………………………………….

**3.3 Rhif ffôn y fangre (os yw'n berthnasol):**

………………………………………………………………………………

**3.4 Cyfeiriad y wefan a/neu unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus ar gyfer y busnes (os yw'n berthnasol):**

………………………………………………………………………………..

**3.5 Rhestr o driniaethau arbennig a fydd yn cael eu cynnal o'r fangre** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4):***

**Aciwbigo** ☐
**Tyllu'r Corff** ☐
**Electrolysis** ☐
**Tatŵio** ☐

**3.6 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu cynnal yn y fangre?** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5)***

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os ateboch 'Oes', nodwch y gweithgareddau eraill hynny:**

…………………………………………………………………………………………………

**3.7 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio o'r fangre?**

…………………………………………………………………………………………………..

**3.8 Faint o weithfannau sydd yn y fangre yr ydych yn ceisio cymeradwyaeth ar ei chyfer?** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 6)***

…………………………………………………………………………………………………..

**3.9 Pa gyflenwad dŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y fangre?**

☐ Prif gyflenwad dŵr ☐ Cyflenwad dŵr preifat ☐ Prif gyflenwad dŵr a chyflenwad dŵr preifat

**3.10 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo yn y fangre:**

………………………………………………………………………………………...………

**3.11 Nodwch a yw pob basn golchi dwylo yn darparu:**

- **Cyflenwad digonol o ddŵr twym ac oer** Ydy ☐ Nac ydy ☐
- **Sebon hylifol neu ewynnog** Ydy ☐ Nac ydy ☐
- **Tywelion papur tafladwy mewn blwch caeëdig** Ydy ☐ Nac ydy ☐

**3.12 A yw'r holl osodiadau a'r ffitiadau yn y man gwaith lle cynhelir triniaethau arbennig *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7)* mewn cyflwr da ac wedi'u gwneud o ddeunyddiau nad ydynt yn fandyllog ac y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?**
Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.13 A yw'r waliau a'r lloriau o fewn y fangre i gyd mewn cyflwr da?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.14 A yw'r waliau a'r lloriau i gyd o fewn y fangre wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.15 Rhowch fanylion llawn am yr offer a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw declynnau, offer, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

**3.16 Nodwch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog - *gweler Nodyn Cyfarwyddyd 8)*:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

**3.17 Nodwch pa ddarpariaeth sydd ar gael mewn perthynas â:**

- **Cyfarpar Diogelu Personol**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cymorth Cyntaf**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

**3.18 Nodwch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer storio a chadw cofnodion mewn perthynas â:**

- **Gwybodaeth am y cleient**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cyflenwyr a defnydd cynnyrch**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Trefniadau glanhau a diheintio**

  ……………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………

- **Cynnal a chadw a gwasanaethu offer**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

**Adran B - Manylion y Cerbyd**

**3.19 Yr enw masnachu a ddefnyddir ar gyfer y cerbyd (os yw'n berthnasol):**

………………………………………………………………………………

**3.20 Rhowch fanylion am y cerbyd:**

**Rhif cofrestru'r cerbyd: ……………………………………………….**

**Rhif adnabod y cerbyd (VIN):** ……………………………………………….

**Dylid cynnwys llun lliw diweddar o'r cerbyd i'w amgáu gyda'r cais hwn** (ticiwch i gadarnhau bod hwn wedi'i gynnwys) ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9)*** ☐ Ydy

**Os nad oes rhif cofrestru gan y cerbyd, rhowch ddisgrifiad o'r cerbyd a'i leoliad (lle bo'n bosibl, dylai hyn gynnwys cyfeiriad gyda chôd post) a rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am y cerbyd, er enghraifft gwneuthuriad, model, lliw'r cerbyd:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

**3.21 O le yng Nghymru y bydd y cerbyd yn debygol o fod yn gweithredu? (*Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 10*)**

………………………………………………………………………………

**3.22 Cyfeiriad y wefan a/neu unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus ar gyfer y busnes (os yw'n berthnasol):**

……………………………………………………………………………………..

**3.23 Rhestr o driniaethau arbennig a fydd yn cael eu cynnal yn y cerbyd *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4)*:**

**Aciwbigo** ☐
**Tyllu'r Corff** ☐
**Electrolysis** ☐
**Tatŵio** ☐

**3.24 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu cynnal yn y cerbyd hwn? *(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5)***

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os ateboch 'Oes', nodwch y gweithgareddau eraill hynny:**

…………………………………………………………………………………………………

**3.25 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio yn y cerbyd?**

……………………………………………………………………………………………..

**3.26 Faint o weithfannau sydd yn y cerbyd yr ydych yn ceisio cymeradwyaeth ar ei gyfer?** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 6)***

……………………………………………………………………………………………..

**3.9 Pa gyflenwad dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn y cerbyd?**

☐ Prif gyflenwad dŵr ☐ Cyflenwad dŵr preifat☐ Prif gyflenwad dŵr a chyflenwad dŵr preifat

**3.28 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo yn y cerbyd:**

……………………………………………………………………………………..………

**3.29 Nodwch a yw pob basn golchi dwylo yn darparu:**

- **Cyflenwad digonol o ddŵr twym ac oer** **Ydyn** ☐ **Nac ydyn** ☐
- **Sebon hylifol neu ewynnog** Ydy ☐ Nac ydy ☐
- **Tywelion papur tafladwy mewn blwch caeedig** Ydy☐ Nac ydy ☐

**3.30 A yw'r holl osodiadau a'r ffitiadau yn y man gwaith lle cynhelir triniaethau arbennig** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7)*** **mewn cyflwr da ac wedi'u gwneud o ddeunyddiau nad ydynt yn fandyllog ac y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.31 A yw'r waliau a'r lloriau i gyd yn y cerbyd mewn cyflwr da?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.32 A yw'r waliau a'r lloriau i gyd yn y cerbyd wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.33 Rhowch fanylion llawn am yr offer a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw declynnau, offer, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

**3.34 Nodwch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog -** ***gweler Nodyn Cyfarwyddyd 8*****):**

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

**3.35 Nodwch pa ddarpariaeth sydd ar gael mewn perthynas â:**

- **Cyfarpar Diogelu Personol**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

- **Cymorth Cyntaf**

  ……………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

**3.36 Nodwch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer storio a chadw cofnodion mewn perthynas â:**

- **Gwybodaeth am y cleient**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cyflenwyr a defnydd cynnyrch**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Trefniadau glanhau a diheintio**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

- **Cynnal a chadw a gwasanaethu offer**

  ……………………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………………

## Rhan 4 – Amserau gweithredu

**Cwblhewch y tabl isod i nodi amserau agor a chau arfaethedig y fangre neu'r cerbyd:**

| | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| Dydd Llun | | |
| Dydd Mawrth | | |
| Dydd Mercher | | |
| Dydd Iau | | |
| Dydd Gwener | | |
| Dydd Sadwrn | | |
| Dydd Sul | | |

[*Rhowch yr amserau yn unol â chloc 24 awr (e.e. 16:00) a rhowch fanylion dim ond ynghylch dyddiau'r wythnos pan fyddwch yn bwriadu defnyddio'r fangre neu'r cerbyd i gynnal triniaethau arbennig.*]

## Rhan 5 – Amrywiol (llenwch fel y bo'n berthnasol)

*Ticiwch fel sy'n briodol*

**5.1 A ydych chi, neu unrhyw berson a enwir yn y cais hwn neu sy'n gysylltiedig ag ef, wedi gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo o'r blaen?** (Ticiwch bob ateb perthnasol)

Nac ydw/Nac ydy ☐
Ydw/ydy – cais am dystysgrif gymeradwyo wedi'i ganiatáu ☐
Ydw/ydy – cais am amrywio wedi'i ganiatáu ☐
Ydw/ydy – cais am adnewyddu wedi'i ganiatáu ☐

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Ydw/ydy – cais (am dystysgrif gymeradwyo, i amrywio a/neu i adnewyddu) wedi'i ganiatáu a thystysgrif gymeradwyo wedi'i dirymu ☐
Ydw/ydy – cais (am dystysgrif gymeradwyo, i amrywio a/neu i adnewyddu) wedi'i wrthod ☐

**Os ateboch 'ydw', rhowch fanylion** *[Er enghraifft, rhif y dystysgrif gymeradwyo, y rhesymau pam y gwrthodwyd y cais, y rhesymau pam y dirymwyd y dystysgrif gymeradwyo.]*:

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

***5.2 A oes gennych drwydded triniaeth arbennig (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 11)***?

Oes ☐ Nac oes ☐ Cais yn aros penderfyniad ☐

**Os ateboch 'Oes', rhowch rif y drwydded *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 12):***

…………………………………………………………….

**Os oes cais yn aros am benderfyniad, nodwch y dyddiad y cafodd y cais ei wneud:**

……………………………………………..

**5.3 Cadarnhewch pa iaith yr hoffech ei defnyddio wrth ymwneud â'r awdurdod lleol ynghylch eich cais:**

Cymraeg ☐ Saesneg ☐

**5.4 Nodwch unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn ei hystyried yn berthnasol i'ch cais mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

## **Rhan 6 - Datganiad a Rhestr Wirio** (cwblhewch / ticiwch os gwelwch yn dda)

**Dylai'r datganiad hwn gael ei gwblhau gan ddeiliad arfaethedig y dystysgrif.**

**Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn y cais hwn neu mewn perthynas ag ef, neu os wyf ymddwyn yn anghyfrifol o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.**

**Rwy'n deall y gallai rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol (boed yn fwriadol neu mewn modd anghyfrifol) arwain at ddirymu fy nhystysgrif gymeradwyo.**

☐

**Rwyf hefyd yn cadarnhau'r canlynol:**

☐**Mae gan yr ymgeisydd unigol/y busnes neu'r sefydliad yr hawl i feddiannu'r fangre neu'r cerbyd *[dileer fel y bo'n berthnasol,]***

☐ ***Rwy'n ymwybodol o'm rhwymedigaethau i gael yswiriant dilys mewn perthynas â'r fangre/cerbyd (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 13)*,**

☐ **Rwyf wedi darllen a deall yr amodau cymeradwyo gorfodol a fydd yn gysylltiedig â'm tystysgrif gymeradwyo, ac**

☐ **Rwy'n deall goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo gorfodol hynny. *(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 14)***

**Rhestr wirio:**

- **Y ffi ar gyfer y cais wedi'i thalu/ei hamgáu *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 15)*** ☐
- **Y ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn a'i llofnodi *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 16)*** ☐
- **Cynllun o'r fangre neu'r cerbyd wedi'i amgáu *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 17)*** ☐
- **Tystiolaeth o ddyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig wedi'i amgáu *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 18)*** ☐
- **Llun lliw diweddar o'r cerbyd wedi'i amgáu (os yw'n berthnasol) *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9)*** ☐
- **Copïau o'r dogfennau adnabod wedi'u hamgáu *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 19)*** ☐
- **Rwy'n deall os na chydymffurfir â'r gofynion uchod y gellir gwrthod y cais** ☐

## Rhan 7 – Llofnod

**7.1 Llofnod yr unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo (yn unol â Rhan 2 Adran A)**

**Llofnod:** ………………………………………….……..

**Printiwch yr enw:** ……………………………………..……..

**Dyddiad:** ………………………………………...................

**7.2 Llofnod ar ran y busnes/sefydliad sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo (yn unol ag Adran B Rhan 2)**

**Llofnod (Yr unigolyn a nodwyd yn Rhan 2 Adran B 2.14):** ………………………………………….……..

**Printiwch yr enw:** ……………………………………..……..

**Dyddiad:** ………………………………………...................

**Llofnod (Yr unigolyn a nodwyd yn Rhan 2 Adran B 2.16):** ………………………………………….……..

**Printiwch yr enw:** ……………………………………..……..

**Dyddiad:** ………………………………………...................

[*Yn achos cais sydd i'w gyflwyno ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person.*]

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**Nodyn 1: Enw'r Awdurdod Lleol perthnasol sy'n rhoi'r drwydded**
Wrth wneud cais am dystysgrif gymeradwyo—

(a) os yw'r fangre yn ardal yr awdurdod lleol, dylid gwneud y cais i'r awdurdod lleol hwnnw;
(b) os ystyrir bod y cerbyd yn cael ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod lleol , neu os yw hynny'n debygol o fod yn wir, dylid gwneud y cais i'r awdurdod lleol hwnnw.

**Nodyn 2: Adnabod unigolyn yn Rhan 2 Adran B 2.14**
Os gwneir cais ar ran busnes/sefydliad, enw'r unigolyn y mae'n ofynnol ei enwi ar y ffurflen gais yw unigolyn fel Perchennog, Rheolwr, Cyfarwyddwr y Cwmni, Cyfarwyddwr Gweithredol y busnes/sefydliad.

**Nodyn 3: Adnabod unigolyn yn Rhan 2 Adran B 2.16**
Mae'n rhaid i ymgeiswyr nodi unigolyn a fydd yn gyswllt ar gyfer y cais yn ogystal â'r cyswllt drwy gydol y dystysgrif gymeradwyo arfaethedig. Gall yr unigolyn hwn fod yn Rheolwr Rhanbarthol, Rheolwr Ardal, Rheolwr Safle ar gyfer y fangre/cerbyd a bod yn rhan o reolaeth weithredol/beunyddiol y safle/cerbyd. Gall yr unigolyn hwn fod yr un unigolyn â'r person a nodwyd yn **Rhan 2 Adran B 2.14** ond bydd gofyn iddo ddarparu dogfennau adnabod a rhaid iddo feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig dilys.

**Nodyn 4: Ystyr triniaeth arbennig**
Mae gan y triniaethau arbennig o ran aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio yr un ystyron ag a roddir yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

**Nodyn 5: Cynnal gweithgareddau eraill fel rhan o'r busnes**
Gall ymgeisydd gynnwys manylion ynghylch gweithgareddau eraill a gyflawnir fel rhan o'r busnes o'r fangre/cerbyd ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig. Er enghraifft, gweithgareddau fel triniaethau harddwch, trin gwallt, manwerthu ac ati.

**Nodyn 6: Nifer y gweithfannau**

Mae'r term "gweithfan" yn golygu'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys—

(a) gwely, cadair neu debyg, lle mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arni/arno i gael triniaeth arbennig a gynhelir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i gynnal y driniaeth arbennig (os yw'n berthnasol), ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir i roi ac i storio'r teclynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i gynnal y driniaeth arbennig.

Wrth benderfynu faint o weithfannau y mae ymgeisydd yn ceisio cymeradwyaeth ar eu cyfer, rhaid i'r ymgeisydd ystyried maint a siâp y fangre/cerbyd a sicrhau bod digon o le rhwng pob gweithfan i allu cynnal y driniaeth/triniaethau arbennig yn ddiogel ac yn hylan. Gweler y canllawiau anstatudol i gael rhagor o fanylion.

**Nodyn 7: Gweithfan y triniaethau arbennig**

Mae'r term "man gwaith triniaethau arbennig" yn golygu man neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir at ddiben cynnal triniaeth arbennig —

(a) sydd yn rhaid cynnwys o leiaf—

 (i) 1 weithfan,

 (ii) 1 basn golchi dwylo,

 (iii) 1 bin gwastraff,

 (iv) 1 bin offer miniog (os yw'n berthnasol), a

(b) gall hefyd gynnwys cyfleusterau ac offer eraill i helpu i gynnal y driniaeth arbennig.

**Nodyn 8: Offer miniog**
Mae'r term "offer miniog" yn golygu gwrthrychau neu declynnau sy'n gallu torri, sgathru, tyllu neu achosi anaf i'r croen ac mae'n cynnwys pob math o nodwyddau a raseli untro.

**Nodyn 9: Ffotograff o'r cerbyd**
Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ffotograff lliw diweddar o'r cerbyd sy'n amodol ar gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Mae angen ffotograff ar gyfer pob cerbyd, gan gynnwys y rhai sydd â phlatiau cofrestru.

**Nodyn 10: Lleoliad y cerbyd**
Er y bydd tystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi cynnal triniaethau arbennig mewn cerbyd unrhyw le yng Nghymru, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu rhagor o fanylion ynghylch lleoliad arferol y cerbyd yng Nghymru ac ardaloedd yr awdurdod lleol lle mae'r cerbyd yn debygol o gael ei ddefnyddio i gynnal triniaethau arbennig.

**Nodyn 11: Trwydded triniaeth arbennig**
Mae gan drwydded triniaeth arbennig yr un ystyr ag a nodir yn adran 59 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 h.y. trwydded a roddir gan awdurdod lleol sy'n awdurdodi cynnal y driniaeth arbennig (neu'r triniaethau arbennig) a bennir yn y drwydded gan ddeiliad y drwydded.

**Nodyn 12: Rhif y drwydded**

Ystyr "rhif y drwydded" yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno ac a nodir ynddi.

**Nodyn 13: Yswiriant**
Mae'r term "yswiriant" yn golygu polisi ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys a gyhoeddir gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ymgeisydd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd cymeradwy.
**Nodyn 14: Diffyg cydymffurfiaeth ag amodau cymeradwyo gorfodol**
Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gellir dirymu tystysgrif gymeradwyo os yw awdurdod lleol yn fodlon bod deiliad y dystysgrif wedi methu â chydymffurfio ag amod cymeradwyo gorfodol cymwys, a bod y diffyg cydymffurfiaeth yn peri risg sylweddol, neu gallai beri risg sylweddol, o ran gwneud niwed i iechyd pobl. Gweler adran 73 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i gael rhagor o fanylion.

**Nodyn 15: Talu'r ffi ar gyfer y cais**
Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflwyno'r dystysgrif i gael rhagor o wybodaeth am y ffi sy'n ddyledus ar gyfer gwneud cais a sut y dylid talu'r ffi hwnnw. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 16: Cyflwyno'r cais**
Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflwyno'r dystysgrif i gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd cais am dystysgrif gymeradwyo yn cael ei gyflwyno. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 17: Cynllun y fangre neu'r cerbyd**
Mae'n rhaid i'r cais gynnwys cynllun sy'n gorfod cynnwys (lle bo hynny'n briodol)—

(a) y mynedfeydd a'r allanfeydd i'r fangre neu'r cerbyd,

(b) y mesuriadau a disgrifiad o siâp y mannau (megis ystafelloedd) (os o gwbl) o fewn y fangre neu'r cerbyd,

(c) y mynedfeydd a'r allanfeydd i'r mannau (megis ystafelloedd) (os o gwbl) o fewn y fangre neu'r cerbyd,

(d) lleoliad y canlynol (os o gwbl)—

- (i) sinciau a ddefnyddir fel offer,
- (ii) biniau offer miniog,
- (iii) ystafelloedd staff,
- (iv) mannau, cyfleusterau neu ystafelloedd storio ar gyfer cynhyrchion a/neu offer,
- (v) toiledau,
- (vi) ystafelloedd neu fannau aros,
- (vii) basnau golchi dwylo,
- (viii) biniau gwastraff,
- (ix) ffenestri, a
- (x) gweithfannau.

**Nodyn 18: Tystiolaeth o ddyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig**
Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig (dyfarniad sy'n cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru). Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r dyfarniad hwn trwy amgáu'r dystysgrif wreiddiol neu gopi o'r dystysgrif. Os darperir copi o'r dystysgrif, rhaid i'r dystysgrif wreiddiol fod ar gael ar gais i'r awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r dystysgrif.

Yn achos unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo, rhaid dyfarnu'r dyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig i'r unigolyn hwnnw.

Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes/sefydliad, mae'n rhaid i'r unigolyn a enwir/a nodir yn **Rhan 2 Adran B 2.16** y ffurflen gais fod wedi cael y dyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig.

**Nodyn 19: Dogfennau adnabod**
Yn achos unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo, mae'n rhaid iddo ddarparu prawf o'i enw llawn a'i ddyddiad geni.

Yn achos cais sy'n cael ei wneud ar ran busnes/sefydliad, mae'n rhaid i'r unigolyn a nodir yn **Rhan 2 Adran B 2.16** y ffurflen gais ddarparu ei brawf adnabod.

Caniateir y mathau canlynol o brawf adnabod ffotograffig:

- Pasbort neu drwydded yrru ddilys,
- Os nad oes gan yr ymgeisydd yr un o'r uchod, ystyrir bod y cardiau adnabod ffotograffig canlynol yn addas; Trwydded breswylio fiometrig; Cerdyn Adnabod Lluoedd Ei Fawrhydi; Cerdyn Adnabod Gwladolyn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE); Cerdyn Pasbort Gwyddelig; Fisa neu drwydded waith.

Gall ymgeiswyr ddarparu copïau o'u dogfennau adnabod i gyd-fynd â'r ffurflen gais ond mae'n rhaid sicrhau bod y prawf adnabod gwreiddiol ar gael ar gais i'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r drwydded.